Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2027 - 2031



Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Y Cyd-destun Rhanbarthol	8
Ymrwymiad Uchelgais Gogledd Cymru i gydraddoldeb	10
Amcanion cydraddoldeb a chynllun gweithredu	11
Fframwaith monitro ac adrodd	22

DRAFT

Rhagair – i ddilyn

DRAFT

2. Cyflwyniad

Cyd-destun a Fframwaith Cyfreithiol

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithredu fel Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) – corff rhanbarthol statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gryfhau cydweithredu ledled gogledd Cymru.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cydnabod y rôl allweddol y mae'n rhaid i ni ei chwarae wrth hyrwyddo cydraddoldeb a chyflawni Cymru fwy cyfartal.

Mae CBC Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Mae adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi'r PSED sydd, yn gryno, yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus wrth arfer eu swyddogaethau i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu
- Meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn y rhai sydd â nodwedd warchodedig. Y naw nodwedd warchodedig yw: oedran; anabledd; ailbennu rhyw; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil.

Yn unol â'r dyletswyddau penodol ychwanegol ar gyfer Cymru, fel y'u rhestrir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Uchelgais Gogledd Cymru:

- Gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb
- Adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb
- Gosod amcanion cydraddoldeb ac amlinellu camau i gyflawni'r amcanion
- Darparu adroddiadau blynyddol
- Cynnal ymgysylltu
- Coladu data cyflogaeth
- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Ystyried y ddyletswydd gyffredinol mewn prosesau caffael

DRAFT

- Gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o fewn asesiadau effaith presennol

Mae Dyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i CBC Gogledd Cymru fel 'corff cyhoeddus perthnasol', wrth wneud penderfyniadau strategol fel 'penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion', ystyried sut y gallai ei benderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol - gan yrru canlyniadau gwell i fywydau a phrofiadau pobl drwy wneud penderfyniadau gwell a chyfrannu ymhellach tuag at ein nod cyffredin o ddod yn Gymru fwy cyfartal.

Nod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae'r cynllun hwn yn bodloni ein dyletswyddau o dan reoliad 14(2)(c) o Reoliad Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad Uchelgais Gogledd Cymru i wneud cydraddoldeb yn rhan annatod o sut mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio. Bydd yr amcanion cydraddoldeb a nodir yn y cynllun yn darparu fframwaith sy'n dod â'r gwaith cydraddoldeb ar draws ein swyddogaethau at ei gilydd ac yn llywio gweithredu yn y dyfodol lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf. Bydd hefyd yn cefnogi rhaglenni a phrosiectau unigol ac yn sicrhau eu bod yn cyfrannu at ein nodau ehangach, gan ganolbwyntio ymdrech lle bydd yn cael yr effaith fwyaf.

Aliniad â fframweithiau a pholisi cenedlaethol

Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â *Chynllun Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol 2025–2029* Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at ei *Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol (NEOs),* gan sicrhau cysondeb â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer Cymru decach, mwy cynhwysol a sy'n seiliedig ar hawliau.

Mae hefyd yn cyd-fynd â nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o 'Gymru Fwy Cyfartal' a gyflwynwyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'n ategu ein Cynlluniau Llesiant a Thwf Economaidd rhanbarthol, gan gydnabod na fyddwn yn cyflawni nodau llesiant eraill heb gael gogledd Cymru fwy cyfartal.

Diffinnir 'Cymru Fwy Cyfartal' fel: 'Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir economaidd-gymdeithasol a'u hamgylchiadau)'.

O fewn y 50 **dangosydd cenedlaethol** sy'n mesur cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant, mae llawer o'r rhain yn mesur agweddau sy'n ymwneud â Chymru fwy cyfartal.

DRAFT

Y Gymraeg ac Integreiddio Polisïau

Mae aelodau Uchelgais Gogledd Cymru a'r CBC wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol.

Bydd amcanion cydraddoldeb Uchelgais Gogledd Cymru yn cael eu cyflawni ochr yn ochr â'n safonau i'r Gymraeg, gan gydnabod bod iaith yn rhan allweddol o hunaniaeth, cynhwysiant a chyfranogiad. Cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig Safonau'r Gymraeg ym mis Chwefror 2024 ac mae adroddiad blynyddol ynghylch gweithredu Safonau'r Gymraeg yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol.

Datblygu'r Cynllun hwn

Fel endid newydd i Lywodraeth Leol, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn adeiladu ar hyn i sicrhau bod camau gweithredu ar waith i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn llawn yn ei ffyrdd o weithio.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gwahodd grwpiau, partneriaid a rhanddeiliaid perthnasol i gymryd rhan yn y broses ymgynghori mewn perthynas ag:

- ystyried a dylunio'r amcanion cydraddoldeb;
- asesu sut mae pethau a wneir (neu bethau y gellid eu gwneud) yn cyfrannu at gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol;
- asesu effaith polisïau ac arferion ar gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cydnabod na ddylai ymgysylltu fod yn ddigwyddiad untro ond yn ddeialog barhaus gyda phobl sy'n cael eu hystyried yn gynrychioliadol o'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol a'r rhai sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r CBC yn cyflawni ei swyddogaethau.

DRAFT

Amserlen

Medi – Hydref: 2026: Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

Tachwedd: Ceisir penderfyniad gan y CBC i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus.

Tachwedd – Rhagfyr: Ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig a phartneriaid a rhanddeiliaid Uchelgais Gogledd Cymru.

Mawrth: Diwygiadau a drafft terfynol yn cael eu cyflwyno i'r CBC i'w hystyried.

DRAFT

3. Y Cyd-destun Rhanbarthol

Mae gogledd Cymru yn rhanbarth amrywiol o bron i 700,000 o bobl, sy'n cwmpasu canolfannau trefol, cymunedau arfordirol, trefi marchnad ac ardaloedd gwledig helaeth. Mae'r boblogaeth yn hŷn na chyfartaledd Cymru, gyda chyfran gynyddol o drigolion dros 65 oed a phoblogaeth oedran gweithio yn gostwng mewn rhai ardaloedd. Mae'r rhanbarth yn gartref i bobl o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig, diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol.[1]

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r Gogledd. Gyda buddsoddiad sylweddol, cyfleoedd twf a llif prosiectau cryf ar draws ystod o sectorau, mae potensial mawr i fod yn creu swyddi o ansawdd a gyrru twf economaidd cynaliadwy. Ar yr un pryd, mae anghydraddoldeb parhaus fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), a mynediad anghyfartal i ddilyniant gyrfa yn parhau i gyflwyno heriau i'r rhanbarth. I bobl â nodweddion gwarchodedig, gall y rhwystrau hyn fod yn arbennig o acíwt. Mae mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn yn hanfodol os yw pob cymuned am elwa o les economaidd.

Mae'r Gymraeg yn ganolog i hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth gogledd Cymru. Mae tua 29% o drigolion yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gyda lefelau llawer uwch yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae diogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gysylltiedig â chefnogi cymunedau bywiog, gwydn a chynhwysol.

Mae tystiolaeth o Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Adroddiad Data a Thystiolaeth 2023 a gyhoeddwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn dangos, er bod profiadau'n wahanol ar draws y rhanbarth, bod anghydraddoldebau sylweddol yn parhau ym maes addysg, cyflogaeth, iechyd, tai, diogelwch personol a mynediad at wasanaethau. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn ffactor allweddol ac yn aml yn croestorri â nodweddion gwarchodedig i greu rhwystrau ychwanegol.

Mae pobl anabl yn profi rhai o'r gwahaniaethau mwyaf arwyddocaol. Yn 2021/22, roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl anabl yng ngogledd Cymru yn 47%, o'i gymharu ag 82% i bobl nad ydynt yn anabl. Roedd pobl anabl hefyd yn fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi heb fynediad at gar neu fan, gan greu heriau penodol mewn cymunedau gwledig.

Mae anghydraddoldebau rhwng y rhywiau hefyd yn parhau. Er mai merched yn gyffredinol oedd yn fwy tebygol o fod â chymwysterau lefel gradd, mae merched yn ennill llai na dynion ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng ngogledd Cymru ac maent yn fwy tebygol o ddarparu gofal di-dâl.

DRAFT

[1] Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth (Data cyfrifiad a gynhyrchwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru).

Roedd gan bobl o'r mwyafrif byd-eang gyfradd cyflogaeth gyffredinol is na phobl Wyn, tra bod gwahaniaethau sylweddol yn bodoli mewn perchnogaeth cartrefi a gorlenwi. Roedd hil hefyd yn ffactor ysgogol mwyaf cyffredin ar gyfer troseddau casineb a gofnodwyd yng ngogledd Cymru. Cynyddodd troseddau casineb a gofnodwyd mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol hefyd yn sylweddol, er bod tanadrodd yn golygu bod y ffigyrau yn annhebygol o adlewyrchu profiadau cymunedau LHDTC+ yn llawn.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn credu y bydd creu Gogledd Cymru fwy cyfartal yn cyfrannu at ranbarth iachach a mwy llewyrchus. Gall mynediad at waith da a sicr chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd hirdymor, tra gall ymyriadau cydgysylltiedig ym maes cyflogadwyedd ac iechyd helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y farchnad lafur.

Mae angen cydgysylltu ymyriadau cyflogadwyedd ac iechyd er mwyn cynyddu lefelau cynhyrchiant yng Ngogledd Cymru. Salwch hirdymor yw'r rheswm mwyaf dros anweithgarwch economaidd (30,800 o bobl, sef 32.1% o'r rhai sy'n economaidd anweithgar), ac mae 29.7% o'r boblogaeth oedran gweithio yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb neu â chyflwr sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Mae enillion hefyd yn parhau'n is na chyfartaledd y DU, gan amlygu pwysigrwydd nid yn unig cefnogi pobl i gael gwaith, ond hefyd ehangu mynediad at waith teg, cynaliadwy ac o ansawdd da.

Mae pobl ifanc yn wynebu heriau penodol. Yn ystod y tair blynedd hyd at fis Rhagfyr 2025, roedd 15.1% o bobl ifanc 16–24 oed yng Ngogledd Cymru heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), y gyfradd uchaf o blith rhanbarthau Cymru.[2] Ledled Cymru, cyrhaeddodd y gyfradd 17.0% yn 2025, cynnydd o 5.5 pwynt canran mewn blwyddyn, o gymharu â thua 12.7% yn y DU. Mae hyn yn gysylltiedig â darlun ehangach o gyfranogiad yn y farchnad lafur: cododd anweithgarwch economaidd 2.0 bwynt canran i 22.9%, mae salwch hirdymor yn cyfrif am 32.1% ohono, ac nid oes gan 5.6% o'r rhai sy'n economaidd weithgar unrhyw gymwysterau (8.6% yng Nghonwy a 7.5% yn Sir Ddinbych).

Mae gwella tegwch iechyd, felly, yn nod hirdymor ar draws ein cyfrifoldebau. Byddwn yn ceisio lleihau rhwystrau i gyflogaeth, ehangu mynediad at waith o ansawdd da a sicrhau bod cyfleoedd economaidd yn hygyrch i bobl o bob cefndir, gan helpu i atal anghydraddoldebau iechyd presennol rhag ehangu ymhellach.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, hygyrchedd, gwahaniaethu a rhwystrau i gyfranogiad, tra'n cydnabod bod profiadau pobl yn cael eu siapio gan nodweddion lluosog sy'n gorgyffwrdd.

DRAFT

[2] Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU

4. Ymrwymiad Uchelgais Gogledd Cymru i Gydraddoldeb

Gweledigaeth:

Ein gweledigaeth yw gogledd Cymru decach, mwy cyfartal - lle gall pob person ffynnu. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu rhanbarth lle mae arloesedd yn gyrru cyfleoedd, lle mae buddsoddiad yn cryfhau cymunedau, a lle mae ffyniant yn cael ei rannu gan bawb, waeth beth fo'u nodwedd warchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol.

Gwerthoedd:

Rydym yn Uchelgeisiol - rydym yn ymdrechu i ddarparu'r gorau i ogledd Cymru. Rydym yn arweinwyr yn ein meysydd, yn ffurfio barn ac yn ddylanwadwyr, ac rydym yn herio syniadau confensiynol. Rydym yn ymgyrraedd at safonau uchel, yn anelu i fod ar ein gorau, ac yn datblygu ein hunain yn broffesiynol drwy'r amser.

Rydym yn Gweithio ar y Cyd - Rydym yn rhannu gwybodaeth, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth ac yn sicrhau bod cydweithwyr yn cael eu hysbysu. Rydym bob amser yn helpu ein gilydd, yn hwyluso cyfleoedd i ogledd Cymru ac yn cydnabod bod ein heffaith ar y cyd yn fwy sylweddol na'n heffaith yn unigol.

Rydym ni'n gwneud y peth iawn - Rydym yn gwneud y peth iawn, nid y peth hawsaf. Rydym yn herio ymddygiad anfoesol ac yn codi llais pan nad yw pethau'n teimlo'n iawn. Rydym yn barchus, yn deg ac yn ystyriol a gellir ymddiried ynom i gyflawni'r ymrwymiadau sydd wedi'u cytuno a hynny ar amser.

Rydym yn gwneud gwahaniaeth - Rydym yn mynd ar drywydd cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yng ngogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant Cymru ac yn cefnogi elusennau rhanbarthol. Rydym yn gwarchod yr amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i leihau ein hôl-troed.

DRAFT

5. Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol (2027–2031)

Mae'r amcanion cydraddoldeb a nodir yn y cynllun hwn yn cynrychioli ymrwymiadau Uchelgais Gogledd Cymru i gryfhau llywodraethu, gwneud penderfyniadau, arferion y gweithlu a chydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.

1. Mae cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi'u hymgorffori ar draws ein holl ffyrdd o weithio i gefnogi canlyniadau teg ledled y Gogledd.
2. Mae diwylliant sefydliadol cynhwysol yn cael ei gryfhau trwy ddatblygu ein pobl, gwell gwybodaeth am y gweithlu a pholisïau sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, mynd i'r afael â rhwystrau ac yn galluogi pawb i ffynnu.
3. Defnyddir ein partneriaethau rhanbarthol i hyrwyddo cydraddoldeb a gwella mynediad at ddatblygu sgiliau a chyfleoedd ledled y Gogledd.

Ar gyfer pob amcan bydd set o gamau gweithredu, canlyniadau, mesurau/dangosyddion ac amserlen arfaethedig a fydd yn cael eu monitro a'u hadrodd yn flynyddol.

Bydd awdurdodau lleol ledled gogledd Cymru yn paratoi i adolygu a diwygio eu hamcanion cydraddoldeb wrth i'w Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd presennol ddod i ben. Bydd y data a'r dystiolaeth cydraddoldeb diweddaraf ar gyfer gogledd Cymru yn cael eu casglu a'u dadansoddi fel rhan o'r broses hon yn 2027-28, gan helpu i nodi anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg a llywio datblygiad amcanion yn y dyfodol. Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cyhoeddi eu hasesiadau llesiant, a fydd yn ystyried nod llesiant 'Cymru Fwy Cyfartal' ac yn darparu tystiolaeth bellach o dueddiadau ac anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg ar draws y rhanbarth.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ymwybodol o'r amserlen ranbarthol hon a bydd yn ystyried a ddylid adolygu ei amcanion cydraddoldeb cyhoeddedig a'i amserlenni cysylltiedig i alinio'n well â phartneriaid rhanbarthol. Byddai hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig a chydweithredol o nodi a mynd i'r afael â blaenoriaethau cydraddoldeb ar draws y Gogledd.

DRAFT

Amcan 1: Mae cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi'u hymgorffori ar draws ein holl ffyrdd o weithio i gefnogi canlyniadau teg ledled y Gogledd.

Pam?

Fel Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae gan Uchelgais Gogledd Cymru gyfrifoldebau statudol ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol a chynllunio datblygu strategol, ochr yn ochr â rôl yn hyrwyddo lles economaidd y Gogledd. Mae'r swyddogaethau hyn yn darparu cyfleoedd sylweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella symudedd cymdeithasol ac ehangu mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleoedd eraill. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn cydnabod y dylai penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus ystyried sut i leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol a gwella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf.

Nododd tîm Uchelgais Gogledd Cymru yr angen i adolygu'r broses Asesu Effaith Integredig bresennol a sicrhau dull cyson ar draws strategaethau, polisïau, prosiectau a phenderfyniadau. Bydd hyfforddiant a chanllawiau yn cefnogi ei ddefnydd effeithiol, gan gynnwys paratoi ar gyfer Asesiad Effaith Iechyd gorfodol o fis Ebrill 2027 a chydnabod y cysylltiadau rhwng iechyd, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb.[3]

Bydd cydraddoldeb yn cael ei ymgorffori yn ein dull o gynllunio datblygu strategol a thrafnidiaeth ranbarthol. Gall trafnidiaeth hygyrch ac effeithiol helpu i gysylltu pobl â chyflogaeth, addysg, gwasanaethau a chymorth fel y dangosir gan yr Arfarniad Llesiant Integredig a baratowyd i gefnogi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r Cynllun Datblygu Strategol yn rhoi cyfle i ystyried anghenion cymunedau amrywiol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar lefel ranbarthol.

Bydd ymgysylltu ystyrlon â chymunedau amrywiol y Gogledd yn helpu i sicrhau bod profiad byw yn llywio ein gwaith, felly bydd yn archwilio ffyrdd o adeiladu perthnasoedd a rhwydweithiau a fydd yn llywio ein dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig. Yn ddiweddar, mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymuno â Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wella canlyniadau cydraddoldeb, yn enwedig drwy gynyddu cyfranogiad ac amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau a mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau.

DRAFT

[3] Adolygiad Marmot – 10 mlynedd yn ddiweddarach

Bydd ymgorffori cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol drwy gydol ein llywodraethu, casglu tystiolaeth, ymgysylltu, asesu effaith a gwneud penderfyniadau yn ein helpu i nodi effeithiau anghyfartal, deall profiad byw, gwneud y mwyaf o ganlyniadau cadarnhaol a chymryd camau i leihau anfantais.

Gweithred		Canlyniad	Mesurau a Dangosyddion Arfaethedig	Amserlen
1 (i)	Adolygu ac ymgorffori proses Asesu Effaith Integredig gyson ar draws strategaethau, polisïau, prosiectau a phenderfyniadau allweddol, gyda chefnogaeth hyfforddiant a chanllawiau.	Mae cydraddoldeb ac effeithiau ehangach yn cael eu hystyried yn gyson ac yn gynnar wrth wneud penderfyniadau a'u monitro'n systematig, wrth ddal a rhannu arfer gorau i annog gwelliannau pellach.	• Canran y strategaethau, y polisïau a'r prosiectau perthnasol sy'n cwblhau Asesiad Effaith Integredig. • Canran y staff perthnasol sy'n cwblhau hyfforddiant asesu effaith. • Tystiolaeth o adolygiadau cyfnodol bod asesiadau yn dylanwadu ar benderfyniadau.	Asesiad Effaith Integredig Diwygiedig i'w weithredu 2027-28.
1 (ii)	Cyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (2025–2030) i wella mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleoedd ledled y Gogledd, gan sicrhau bod cydraddoldeb yn parhau i fod yn biler creiddiol i gynllunio trafnidiaeth, gyda chefnogaeth yr Arfarniad Llesiant Integredig.	Gwell mynediad at drafnidiaeth i bobl â nodweddion gwarchodedig, cymunedau gwledig a'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mae'r Monitro a'r Gwerthuso ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (2025–2030) yn cynnwys set o fesurau yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol Cymru: • Canran y bysiau a ddefnyddir fel cerbydau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gyda gwybodaeth glyweledol a threnau a weithredir gan Trafnidiaeth Cymru sydd â system annerch y cyhoedd a sgriniau gwybodaeth weledol. • Fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus – Mesur canran y bobl	Bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno bob tair blynedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

DRAFT

			sy'n teimlo na allant fforddio teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, gyda dadansoddiad yn ôl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys oedran, rhywedd a rhai ffactorau economaidd-gymdeithasol. • Cost fesul km – Mesur cost gyfartalog pob cilometr a deithir ar bob dull o drafnidiaeth gyhoeddus, gyda dadansoddiadau'n debygol o fod ar gael yn ôl rhai nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys oedran, rhywedd a rhai ffactorau economaidd-gymdeithasol.	
1 (iii)	Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori trwy gydol y Cynllun Datblygu Strategol, gydag Asesiad Effaith Integredig yn llywio datblygiad a chyflawniad y Cynllun trwy nodi cyfleoedd i wneud y mwyaf o effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol.	Mae cynllunio datblygu strategol yn fecanwaith allweddol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb drwy ddylanwadu ar ddosbarthiad gofodol tai, cyflogaeth, seilwaith a gwasanaethau. Drwy gasglu tystiolaeth, ymgysylltu, asesu effaith a datblygu polisïau, gall y broses gynllunio helpu i leihau anghydraddoldebau, gwella hygyrchedd a sicrhau bod twf o fudd i bob rhan o gymdeithas.	• Cwblhau ymarfer cwmpasu'r Asesiad Effaith Integredig. • Mae ymarfer cwmpasu'r Asesiad Effaith Integredig yn nodi sut y bydd pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, neu eu cynrychiolwyr, yn cael eu cynnwys wrth asesu effeithiau posibl y Cynllun Datblygu Strategol ar gydraddoldeb. • Mae tystiolaeth o'r ymgysylltu â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael ei hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Integredig ac yn llywio datblygiad y Cynllun Datblygu Strategol.	Ymgynghoriad ar ddogfen gwmpasu'r Asesiad Effaith Integredig erbyn diwedd Ch1 2027.

DRAFT

1 (iv)	Gweithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i wella dealltwriaeth o brofiadau pobl â nodweddion gwarchodedig ledled y Gogledd.	Gwell dealltwriaeth a rennir o'r profiadau a'r anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig ledled y Gogledd, gan lywio polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau mwy cynhwysol.	• Cyfranogiad gweithredol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. • Tystiolaeth o sut mae dealltwriaeth y Rhwydwaith wedi llywio polisïau, cynlluniau neu benderfyniadau Uchelgais Gogledd Cymru. • Tystiolaeth o gyfraniad Uchelgais Gogledd Cymru at amcanion a chamau gweithredu cydraddoldeb rhanbarthol perthnasol a rennir.	2026-27 ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

DRAFT

Amcan 2: Mae diwylliant sefydliadol cynhwysol yn cael ei gryfhau trwy ddatblygu ein pobl, gwell gwybodaeth am y gweithlu a pholisïau sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth, mynd i'r afael â rhwystrau ac yn galluogi pawb i ffynnu.

Pam?

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo i dwf cynhwysol a chynaliadwy, ac mae'n rhaid i'n gwerthoedd gael eu hadlewyrchu yn ein gweithlu a'n diwylliant sefydliadol ein hunain. Ein nod yw darparu cyfleoedd cyflogaeth cyfartal ac amgylchedd gwaith cynhwysol lle mae'r holl staff yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial.

Mae hyn yn cynnwys gweithio tuag at weithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y Gogledd a nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y gweithle, gan gynnwys unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae ymgorffori cydraddoldeb a chynhwysiant yn ein harferion cyflogaeth yn hanfodol i gyflawni ein huchelgeisiau cydraddoldeb ehangach a chyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

DRAFT

Gweithred		Canlyniad	Mesurau a Dangosyddion Arfaethedig	Amserlen
2 (i)	Darparu dysgu proffesiynol cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i dîm Uchelgais Gogledd Cymru, gan sicrhau bod egwyddorion, camau gweithredu a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig y Strategaeth yn cael eu deall a'u cymhwyso yn ymarferol.	Mwy o wybodaeth a hyder staff i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gyson yn eu rolau ac ar draws gwaith Uchelgais Gogledd Cymru.	• Canran y staff sy'n cwblhau dysgu proffesiynol perthnasol ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. • Adborth staff sy'n dangos mwy o wybodaeth a hyder ar ôl dysgu. • Tystiolaeth bod dysgu yn cael ei gymhwyso yn ymarferol, er enghraifft trwy asesiadau effaith, ymgysylltu, datblygu polisïau a gwneud penderfyniadau. • Gofynion dysgu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u hymgorffori wrth sefydlu mewn swydd ac mewn datblygiad proffesiynol parhaus.	Fframwaith dysgu proffesiynol i'w ddatblygu yn 2027-28.
2 (ii)	Mabwysiadu a chyfathrebu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a lles ac yn atgyfnerthu dull dim goddefgarwch tuag at wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu.	Diwylliant gweithle cadarnhaol a chynhwysol lle mae staff yn deall y safonau ymddygiad disgwyliedig ac yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a lle mae amrywiaeth yn cael ei gofleidio a'i ddathlu.	• Mabwysiadwyd Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ffurfiol a'i gyfathrebu i'r holl staff. • Canran y staff sy'n cadarnhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r polisi a'r safonau ymddygiad disgwyliedig.	Polisi i'w ddatblygu yn 2027-28 gyda gweithrediad i'w ddatblygu a'i adeiladu trwy gydol oes y cynllun hwn.

DRAFT

			• Canlyniadau arolwg staff yn ymwneud â chynhwysiant, parch, lles a hyder wrth godi pryderon.	
2 (iii)	Adolygu polisïau AD wrth iddynt gael eu datblygu i sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn hygyrch ac yn cefnogi recriwtio teg a chynhwysol.	Polisïau AD cynhwysol a hygyrch ac arferion recriwtio sy'n helpu i gael gwared ar rwystrau a chefnogi gweithlu amrywiol.	• Canran y polisïau AD newydd neu ddiwygiedig a adolygwyd ar gyfer cydraddoldeb a hygyrchedd. • Adolygwyd gwybodaeth a phrosesau recriwtio ar gyfer hygyrchedd ac ymarfer cynhwysol. • Monitro data amrywiaeth gweithlu a recriwtio, lle bo hynny'n briodol a lle mae data digonol ar gael, i nodi tueddiadau neu rwystrau posibl.	Polisïau AD allweddol wedi'u hadolygu a'u mabwysiadu yn 2027. Data gwaelodlin a gasglwyd yn 2028-29.
2 (iv)	Casglu ac adolygu gwybodaeth am gydraddoldeb y gweithlu i nodi bylchau a llywio gweithredu sefydliadol, gan gynnwys adroddiad bwlch cyflog.	Gwell dealltwriaeth o gydraddoldeb y gweithlu a gwahaniaethau cyflog, gan alluogi gweithredu seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a nodwyd.	• Gwybodaeth cydraddoldeb y gweithlu a gesglir a'i adolygu'n flynyddol, yn amodol ar argaeledd data. • Dadansoddiad/adroddiad bwlch cyflog wedi'i gwblhau a'i adolygu ar gyfnodau y cytunwyd arnynt. • Tystiolaeth o gamau a gymerwyd mewn ymateb i ganfyddiadau neu anghydraddoldebau sylweddol a nodwyd.	Bydd data yn dechrau cael ei gasglu yn 2027-28.

DRAFT

Amcan 3: Defnyddir ein partneriaethau rhanbarthol i hyrwyddo cydraddoldeb a gwella mynediad at ddatblygu sgiliau a chyfleoedd ledled y Gogledd.

Pam?

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r Gogledd. Gyda buddsoddiad sylweddol, cyfleoedd twf a llif prosiectau cryf ar draws ystod o sectorau, mae potensial mawr i fod yn creu swyddi o ansawdd a gyrru twf economaidd cynaliadwy. Ar yr un pryd, mae'r byd gwaith yn newid yn gyflym. Mae prinder sgiliau, newid mewn demograffeg, datblygiadau mewn technoleg, effaith gynyddol deallusrwydd artiffisial (AI) a'r symud tuag at economi wyrddach i gyd yn ail-siapio'r farchnad lafur. Ffigurau NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) yng ngogledd Cymru yw'r uchaf yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda 14.8% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ddim yn ymwneud ag addysg na hyfforddiant ar hyn o bryd. Dywedir mai iechyd a lles yw'r rhwystrau mwyaf i bobl ifanc.

Bydd sylfaen dystiolaeth gadarn yn helpu i nodi lle gall ymyrraeth gael yr effaith fwyaf, tra bod ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb o fewn caffael yn rhoi cyfle i ymestyn y dylanwad hwn trwy gadwyni cyflenwi a gweithgarwch buddsoddi Uchelgais Gogledd Cymru. Ar yr un pryd, bydd monitro canlyniadau cydraddoldeb cryfach a mwy cyson ar draws prosiectau yn helpu i ddangos pwy sy'n elwa o fuddsoddiad, nodi ble mae anghydraddoldebau neu fylchau yn parhau, a darparu tystiolaeth o gynnydd yn erbyn dyletswyddau cydraddoldeb ac uchelgeisiau strategol ehangach Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi cynhyrchu cynllun sy'n tynnu sylw at yr angen am system sgiliau sy'n ymatebol i anghenion y gweithlu presennol a'r dyfodol. Mae'r cynllun yn cefnogi cyflogwyr i fabwysiadu arferion recriwtio cynhwysol sy'n helpu i ehangu mynediad at gyfleoedd swyddi, mynd i'r afael â phrinder sgiliau, ac i sicrhau nad yw'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn cael eu gadael ar ôl. Nod y cynllun hefyd yw helpu pobl sy'n wynebu rhwystrau i gael mynediad at gyfleoedd, hyfforddiant a datblygu sgiliau drwy raglenni fel Cysylltu â Gwaith a rhaglenni cyflogadwyedd ehangach Llywodraeth Cymru sy'n darparu llwybrau hyblyg, sy'n canolbwyntio ar y person, at hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae'r tueddiadau'n dangos bod prentisiaethau yn parhau i apelio yn fwy at fechgyn na merched. Mae gwaith ymchwil wedi tynnu sylw y bydd yr anghydraddoldebau presennol hynny i ferched, lleiafrifoedd ethnig yn debygol o gael eu hailadrodd yn y newid i economi ddigidol ac ehangu swyddi gwyrdd heb ymyrraeth.[4] Bydd y Cynllun Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn ceisio hyrwyddo llwybrau gyrfa cynhwysol sy'n herio stereoteipiau.

[4]Dr Sara MacBride-Stewart a Dr Alison Parken, 'Anghydraddoldeb yng Nghymru yn y Dyfodol: Meysydd gweithredu mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig' (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Prifysgol Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru: 2021), t. 9.

DRAFT

Gweithred		Canlyniad	Mesurau a Dangosyddion Arfaethedig	Amserlen
3 (i)	Datblygu a chynnal sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Gogledd i nodi anghydraddoldebau allweddol ac sy'n dod i'r amlwg a llywio lle gall Uchelgais Gogledd Cymru ddefnyddio ei ddylanwad a'i fuddsoddiad i gyflawni'r effaith fwyaf.	Gwell dealltwriaeth o anghydraddoldebau ledled y Gogledd, gan alluogi blaenoriaethau, buddsoddiad a gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi canlyniadau cydraddoldeb gwell.	• Anghydraddoldebau allweddol a datblygol, tueddiadau a bylchau tystiolaeth wedi'u nodi a'u monitro. • Tystiolaeth a data a ystyrir ar draws nodweddion gwarchodedig ac anfantais economaidd-gymdeithasol, lle mae data cadarn ar gael. • Tystiolaeth a rennir a ddatblygwyd gyda phartneriaid rhanbarthol a rhwydweithiau cynrychioladol, lle bo hynny'n briodol.	Trwy gydol oes y cynllun.
3(ii)	Hyrwyddo ac ymgorffori'r ddyletswydd gyffredinol yn y prosesau caffael dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru.	Mae cydraddoldeb wedi'i gynnwys fel elfen allweddol o Amcanion Caffael Gogledd Cymru a ddatblygwyd yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).	• Mae ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hadlewyrchu'n benodol yn Amcanion Caffael Gogledd Cymru. • Canllawiau caffael perthnasol, templedi a phrosesau wedi'u hadolygu i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori.	Amcanion Caffael i'w cyhoeddi 2027-28.
3 (iii)	Adolygu fframwaith buddion y Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi i gryfhau adrodd ar ddangosyddion DEI, canlyniadau cydraddoldeb ac effaith prosiectau, gan sicrhau bod y dangosyddion a nodwyd drwy Asesiadau Effaith Integredig prosiect yn cael eu diffinio, eu monitro a'u tystiolaethu yn	Gwell dealltwriaeth a thystiolaeth o effaith cydraddoldeb prosiectau y Cynllun Twf a Pharth Buddsoddi, gan alluogi cynnydd yn erbyn canlyniadau DEI i gael ei fonitro a'i adrodd yn gyson.	• Adolygwyd y fframwaith buddion i gynnwys dangosyddion cydraddoldeb priodol. • Canran y prosiectau perthnasol sy'n adrodd yn erbyn dangosyddion cydraddoldeb y cytunwyd arnynt ar	2027-2030

DRAFT

	gyson drwy gydol cylch bywyd y prosiect ac yn adlewyrchu dyletswyddau statudol a nodau strategol Uchelgais Gogledd Cymru.		gamau priodol o gylch bywyd y prosiect. • Tystiolaeth bod data a chanlyniadau cydraddoldeb ar lefel prosiect yn cael eu monitro yn gyson a'u defnyddio i nodi cynnydd, bylchau a meysydd sydd angen gweithredu ymhellach.	
3 (iv)	Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cefnogi Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol 2026-2028 i sicrhau bod manteision buddsoddiad yn cael eu gwireddu ledled y Gogledd, gan gynnwys: • Cefnogi cyflogwyr i fabwysiadu arferion gweithle cynhwysol ac addasadwy sy'n galluogi pontio llwyddiannus i gyflogaeth a chadw mewn cyflogaeth; • Gwella cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws y sector trwy allgymorth wedi'i dargedu a hyrwyddo llwybrau gyrfa cynhwysol sy'n herio stereoteipiau ac yn annog mwy o gyfranogiad menywod mewn rolau adeiladu.	Cynnydd yn nifer y cyflogwyr sy'n ymwneud â mentrau recriwtio, cadw a chyfranogiad gweithlu cynhwysol	• Bydd monitro yn cael ei alinio â'r adroddiadau ar Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol 2026-2028.	2026-2028.

DRAFT

6. Fframwaith Monitro ac Adrodd

Bydd cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei oruchwylio gan Dîm Arweinyddiaeth Uchelgais Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth yr Uwch Swyddog Polisi Corfforaethol.

Bydd yr adroddiadau'n cynnwys:

- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol – asesu cynnydd yn erbyn amcanion ac ymateb i ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg fel amcanion cydraddoldeb diwygiedig Awdurdodau Lleol.
- Adolygiad pedair blynedd (2031) – adolygu amcanion a chyhoeddi cynllun newydd. Bydd hyn yn destun adolygiad er mwyn cyd-fynd ag amserlen awdurdodau cyfansoddol y CBC pan fyddant yn adolygu eu hamcanion cydraddoldeb eu hunain yn 2028.
- Integreiddio gyda dogfennau strategol Uchelgais Gogledd Cymru i sicrhau bod canlyniadau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori ar draws pob swyddogaeth.
- Fframwaith monitro i ddangos sut mae newid wedi digwydd. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon i nodi meysydd i'w gwella, dathlu arfer da a monitro cynnydd o ran cyflawni amcanion.

Llywodraethu ac Atebolrwydd

Bydd y CBC yn cynnal trefniadau llywodraethu clir ar gyfer cydraddoldeb drwy:

- Goruchwyliaeth ar lefel CBC, dan arweiniad y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd;
- Atebolrwydd y Prif Swyddog Gweithredol dros Uchelgais Gogledd Cymru gyda chefnogaeth Uwch Swyddog Polisi Corfforaethol.
- Adroddiadau blynyddol a chyfnodol i'r CBC a'r Tîm Arweinyddiaeth.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cael cyfleoedd datblygu proffesiynol ynghylch cydraddoldeb a bod dysgu yn llywio datblygiad sefydliadol.

DRAFT

Wrth wneud penderfyniadau strategol, megis penderfynu blaenoriaethau a gosod amcanion, ystyriwch sut y gall penderfyniadau leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Anogir cyrff cyhoeddus perthnasol i allu tystio llwybr archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir o dan y ddyletswydd.

Adnoddau ac Adolygiad

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn sicrhau bod adnoddau priodol ar waith i gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun hwn, gan gynnwys:

- Monitro cynnydd a chamau gweithredu ac adroddiadau blynyddol dan arweiniad Uwch Swyddog Polisi Corfforaethol, gyda chefnogaeth Rheolwr Gweithrediadau ac Adnoddau;
- Rhaglenni hyfforddi ac ymwybyddiaeth barhaus;
- Integreiddio amcanion cydraddoldeb i brosesau cynllunio prosiectau a chyllideb.

Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol i adlewyrchu dysgu, datblygiadau polisi, ac adborth rhanddeiliaid.

Deunydd Cyfeiriol

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Canllawiau y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru 2025-2029
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Cynllun gweithredu Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau: Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau: cynllun gweithredu | LLYW. CYMRU
- Cynllun gweithredu Gwrth-hiliol Cymru: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol [HTML] | LLYW. CYMRU
- Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru: Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru | LLYW. CYMRU
- Llywodraeth Cymru Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu: 2021 i 2026 | LLYW. CYMRU
- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2026-2028
- Dr Sara MacBride-Stewart a Dr Alison Parken, 'Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Meysydd gweithredu mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig' (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Prifysgol Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru: 2021)

DRAFT

- Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025

Polisi Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion

Rydym yn credu mewn dull rhagweithiol o hyrwyddo cydraddoldeb ac rydym wedi amlinellu ein hymrwymiad i gyflawni'r nod hwn trwy gyhoeddi'r cynllun hwn. Bydd unrhyw ganmoliaethau, sylwadau a chwynion a dderbynnir mewn perthynas â'r cynllun hwn yn cael eu trin yn unol â'n Polisi Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion sydd i'w gweld ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru. Fel arall, cysylltwch â ni'n uniongyrchol: feedback@ambitionnorth.wales

Sut i gysylltu â ni

Rydym yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau i'n helpu i wella fel corff sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a gellir eu cyflwyno ar unrhyw adeg i Dîm Uchelgais Gogledd Cymru: Uchelgais Gogledd Cymru | Cysylltwch â ni

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni: Uchelgais Gogledd Cymru | Cysylltwch â ni

DRAFT